YR ✵ YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1902. [CYF. II. RHIF 5.

HANES YR ACHOS UNDODAIDD YN NGHAPELYGROES.

Anerchiad a draddodwyd yn y Cyfarfod Chwarterol yn Nghapelygroes,

GAN Y PARCH. THOMAS THOMAS, Y.H.

ANWYL GYFEILLION A CHYDGRISTIONOGION,

Nid oes genyf na phregeth nac araeth, ond ychydig frawddegau wedi eu gosod wrth eu gilydd yn ddigon anestlus yr wyf yn ofni; ond chwi wnewch gyd-ddwyn a mi, gan ystyried nad yw henaint yn dyfod ei hunan. Yr wyf yn gobeithio na fydd i mi eich blino a meithder.

Mae yn dda genyf, ar gais gweinidog y lle, allu bod yn bresenol; nid fy mod yn meddwl y gallaf fod o nemawr wasanaeth yn y cyfarfod, ond yn hytrach oherwydd fy mod yn cael cyfleusdra i weled gwynebau rhai cyfeillion a adnabyddwn gynt—ychydig ydynt heddyw, ac mae'r nifer yn myned yn llai-llai yn barhaus.

Y bobl ieuainc sydd yn harddwch ac yn obaith ein cynulleidfaoedd ydynt, gan mwyaf o honynt, yn ddieithriaid i mi ar hyn o bryd, gan nad oeddent ond plant pan oeddwn i yn y weinidogaeth ac yn cymeryd rhan yn y gwahanol gyfarfodydd. Carwn yn fawr adnewyddu'r hen gyfeillach, pe gallwn, ond mae hyny yn anmhosibl. Nid oes i mi mwyach ond "ailymborthi am ryw enyd, ar y gwynfyd gès o'r blaen."

Yr oedd y

CYFARFODYDD BLYNYDDOL A CHWARTEROL,

os nad wyf yn camsynied, yn cael eu galw weithiau yn Gyfarfodydd Gweinidogion, am y rheswm fod gweinidogion ein gwahanol gapeli

ar eu goreu yn ymdrechu bod yn bresenol, ac yr oeddent, meddaf, yn dra ffyddlon ar y pen hwn, er anghyfleusderau mawrion weithiau—anghyfleusderau, lawer o honynt, nad ydynt yn bodoli mwyach. Yr oedd y gyfeillach, fel y teimlent hwy, yn werth gwneuthur aberth er ei mwyn. Yr ydwyf yn dweyd hyn oddiar brofiad personol. Y mae yn y cyfarfod hwn heddyw amryw weinidogion wedi dyfod at eu gilydd, ac yn barod i gymeryd rhan yn y gwasanaeth; y mae yn dda genyf eu gweled. Cefais yr anrhydedd a'r pleser, a'r *poen* hefyd o ran hyny, i barotoi rhai o honynt i fyned i'r Athrofa—Athrofa Bresbyteraidd Caerfyrddin oedd mewn bri yr amser hwnw, ac y mae'r cyfryw heddyw yn weinidogion cymeradwy a llwyddianus, mwy neu lai, yn eu gwahanol fanau; ac fel aelodau cymdeithas y maent yn uchel eu parch mewn amryw ystyriaethau. Boed iddynt hir oes ar y ddaear cyn myned oddiwrth eu gwaith i dderbyn eu gwobrwy.

Yr hen ysgolheigion a welaf yma heddyw ydynt, Mr. Davies, Alltyplacca; wrth yr enw hwn yr adnabyddir ef fynychaf, ond gellir ei gyfrif braidd yn Weinidog Undodiaid Deheubarth Cymru, gan gymaint ei boblogrwydd a'r mynych ofyn am ei wasanaeth ar achlysuron neillduol, a'i barodrwydd yntau i'w roi; ond bu unwaith yn ymyl cael ei ferthyru gan farbariaid Llanelli. Diolch am y waredigaeth.

Gwelaf hefyd y *Merchant Preacher*, Mr. James, galluog yn mhob ystyr ac yn mhob man, llwyddianus yn y pwlpud fel yn y *Warehouse*. Dymunaf hir oes iddo.

Mae Mr. Jones o Lanbedr yma, er yr olaf yn cael ei enwi, nid llai enwog fel gweinidog. Y mae wedi llanw pob swydd yn Llanbedr, ond nid yw eto wedi bod yn Faer y dref.

Heblaw, gwelaf yma heddyw hefyd weinidogion parchus na chefais i yr anrhydedd, na'r pleser, na'r *poen* chwaith yn eu dygiad i fyny. Mae yn dda genyf eu gweled; ac yr wyf yn llawenhau i wybod fod iddynt air da ar faes eu llafur. Yr wyf yn dymuno iddynt bob llwyddiant yn y dyfodol. Nis gallaf lai na datgan fy mawr lawenydd wrth gael ar ddeall yn yr *Unitarian World* fod naw o ddynion ieuainc, oll o honynt yn perthyn i wahanol gynulleidfaoedd Undodaidd Sir Aberteifi, ar hyn o bryd yn y gwahanol Golegau yn ymbarotoi gyferbyn a'r weinidogaeth. Beth ddaw o honynt wedi gorphen eu hefrydiaeth y mae yn anhawdd gwybod. Y perygl yw y denir hwynt i Loegr gan y bywiolaethau gwell a gânt yno nag yma, ond mi a obeithiaf yr erys rhai o honynt ar ol i ofalu am y praidd sydd ar a rhwng mynyddau Cymru, gan gofio mai "nid ar fara yn unig y bydd byw dyn." Yn y cysylltiad hwn, beiddiaf ddweyd fod y gweinidogion Undodaidd yn Nghymru yn y gorphenol wedi profi eu hunain yn ddosbarth o ddynion o'r mwyaf hunanymwadol allan; ond mae gwasanaeth y gweinidogion presenol yn cael ei gydnabod ryw faint yn well yn ddiweddar oherwydd y cynorthwy caredig a dderbynir gan ein cynulleidfaoedd oddiwrth gyfeillion cyfoethog yr achos yn Lloegr, ac mae'r dyfodol yn dra addawol ond gwneuthur y goreu o ffydd yn y cyfamser.

Yr oedd amcan arbenig, yr wyf yn tybied, gan y gweinidog a'r cyfeillion ereill yn y gymydogaeth wrth gael un o gyfarfodydd neillduol yr enwad yn Capelygroes y flwyddyn hon, sef, er mwyn dathlu Canmlwyddiant, nid y capel, ond cychwyniad yr achos gydag addoliad rheolaidd yn y fan hon.

Cychwynwyd yr Achos Undodaidd

yma ac yn Pantdefaid dan yr amgylchiadau canlynol: Yr oedd Cymru oll wedi cael ei goresgyn gan Galfiniaeth, oddieithr fod o bosibl rai personau unigol gwasgaredig yma a thraw, ond rhy ofnus neu ddifater i agor eu geneuau i ddweyd gair yn erbyn athrawiaeth ag oedd, ryw sut neu gilydd, wedi cael y bobl i'w chadwynau, hyd nes darfu i Jenkin Jones, Pantycreuddyn, wedi hyny yn fwy adnabyddus wrth yr enw Jenkin Jones, Llwynrhydowen, ddyfod i'r maes yn gyhoeddus fel Arminiad, a'r cyntaf yn Nghymru i wneuthur hyny, yn ol yr hanes. Ymosodod o ddifrif ar Galfiniaeth a chyda'r fath lwyddiant, fel y gwelodd mai priodol fyddai corffori ei ganlynwyr yn ei gymydogaeth enedigol yn eglwys, ac felly y gwnaeth yn Llwynrhydowen; hon oedd yr eglwys Arminaidd gyntaf yn Nghymru, yn ol dim hanes i'r gwrthwyneb. Yr oedd hyn oddeutu y flwyddyn 1726 (Rees a Thomas, IV). Bu farw Jenkin Jones yn 1742, ond nid heb gael gweled o ffrwyth ei lafur, oblegid yr oedd lefain Arminiaeth yn gweithio i bwrpas yn nghynulleidfaoedd y cylch, er mawr ofid i'r penbugeiliaid Phillip Pugh ac eraill.

Felly wedi dechreu colli eu gafael yn yr hen angorfeydd, a gosod eu hunain dan arweiniad yspryd rhyddymofyniad, aeth llawer o'r bobl, nid yn unig yn Arminiaid, ond rhag eu blaen yn Ariaid ac Undodiaid. Yn methu teimlo yn gysurus mewn addoliad nad oedd yn gydnaws a'u golygiadau, penderfynodd yr ychydig Undodiaid oedd yn y parth hwn adeiladu Capelygroes, a gwnaed yr un peth mewn man neu ddau arall.

Adeiladwyd y capel cyntaf yn y flwyddyn 1802. Y tirfeddianydd, gan yr hwn y cafwyd lês ar y darn tir oedd un o'r enw David Jenkins, Ysw., Llwynygroes. Yr Ymddiriedolwyr oeddent: 1. Thomas Jenkins, Rhydybanau; 2. David Jenkin Rees, Lloydjack; 3. Jacob Evans, Bedlwyn. Y tri hyn oeddent yn byw yn mhlwyf Ystrad. 4. John Evans, Blaenywaun; 5. David Moses, Gardengoch; 6. Evan John, Felinban (Tailor); 7. Charles Lloyd, sef, Dr. Charles Lloyd.

Yn y flwyddyn 1818, fel yr wyf yn cael ar ddeall mewn *Indenture* arall, chwanegwyd attynt y personau canlynol: 1. Thomas Jenkins; 2. T. H. Jones, Ysw., Neuadd; 3. Rees Rees, Cilgell; 4. David Jenkins, Bryn; 5. Evan John, Fronwen.

Yn 1825, Mawrth 27, rhoddwyd yr *Indenture* wreiddiol i David Harries, Talgrwnmawr, i'w chadw yn ddiogel. Pa le mae hon yn awr nis gwn, ac nid yw wahaniaeth beth ddaeth o honi, oblegid rhoddodd y diweddar Thomas Jones Hughes, Ysw., Neuadd, lês ar y capel

a'r fynwent am 999 ryw ychydig flynyddau cyn iddo farw, ac y mae wedi cael ei chofrestru yn Llundain. Ar dystiolaeth y person ei hunan gallaf ddweyd wrthych pwy gludodd y llwyth cyntaf o gerryg tuag at adeiladu yr hen gapel yn 1802, sef Thomas Jonathan, tadcu y presenol Thomas Jonathan, Foelallt, ger Cilie. Yr oedd, meddai ef, yn ngwasanaeth David Jenkin Rees, Lloydjack, y pryd hwnw, a bu fyw a bu farw yn Undodwr selog a ffyddlon.

Sut ydych chwi, wyrion ac orwyrion yr hen dadau, yn tybied y teimlent hwy wedi ymgorffoli yn eglwys fechan yn y fan hon gan' mlynedd yn ol—sut y teimlent gyda golwg ar ddyfodol eu hachos? Hereticiaid oeddent yn cael eu cyfrif. Ni ddisgwylient, wrth gwrs, lai na chael eu gwrthwynebu a'u condemnio gan yr enwadau oddiwrth y rhai yr oeddent wedi ymneillduo, sef y Calfiniaid a'r Ariniaid yn fwyaf neillduol. Ni ddisgwylient chwaith lawer o gydymdeimlad oddiwrth yr Ariaid, er eu hunain yn hereticiaid, ond nid i'r un graddau a'r Undodiaid.

Yn ddiamheuaeth nid oedd yma un byrbwylldra wedi bod; yr oeddent wedi bwrw'r draul cyn dechreu, wedi tyngu llw o ffyddlondeb i'w hargyhoeddiadau, ac wedi penderfynu eu hamddiffyn doed a ddelai.

Ar y cyntaf nid oedd yma yr un gweinidog sefydlog mwy na Phantdefaid ac Ystrad, ond gan y cymerai Dr. Charles Lloyd, mab Dafydd Llwyd o Brynllefrith, yn nghyd a'r Cristion didwyll, David Jenkin Rees, o Lloydjack, gymaint o ddyddordeb yn y cynulleidfa-oedd bychain hyn, a'r gwirionedd yw, hwynthwy oedd y mwyaf blaenllaw yn nghychwyniad yr achos Undodaidd yn y cymydogaethau, addawodd y ddau hyn y byddai addoliad rheolaidd i gael ei gynal yn y tri lle hyn bob Sul, os yn bosibl, hyd nes y gellid sicrhau gwasanaeth gweinidog sefydlog. Yn dra thebyg fod gweinidog mewn golwg gan Dr. Charles Lloyd pan fyddai wedi gorphen ei efrydiaeth yn Athrofa Exeter dan Kenrick a Bretland, a hwnw oedd John James. Cafodd yr addewid ei chyflawni, a bu eu gwasanaeth o fudd, nid bychan, i'r deadelloedd hyn yn eu *babandod* mewn ystyr.

Tua diwedd 1803, neu ddechreu 1804, ymgymerodd John James a'r weinidogaeth yn mhlith yr Undodiaid yn Sir Aberteifi yn galonog a phenderfynol, ond cyn y gallasai wasanaethu y tair cynulleidfa hyn yr oedd yn rhaid iddo wrth gynorthwy David Jenkin Rees; a bu y ddau yn unol ac mor llwyddianus yn eu llafur ag y gellid disgwyl dan yr amgylchiadau. Heblaw gweinidogaeth alluog a ffyddlon, manteisiol iawn i fywyd a chynydd achos gwan ac amhoblogaidd oedd cael rhai personau parchus a chyfrifol i'w bleidio. Bu yr achos yn Capelygroes yn ffortunus iawn ar y pen hwn. Yr oedd personau o bwys a nod yn y gymydogaeth yn ei gofleidio; yn eu plith yr oedd y meddyg enwog a'r meistr tir mwyaf rhagorol yn y wlad—Jones y Neuadd, (bu farw Ionawr, 1847). Canlynwyd ef yn y Neuadd ac yn y dreftadaeth gan Thos. Jones Hughes (a enwais eisioes), yr hwn hefyd oedd yn uchel ei gymeriad fel meistr tir, ac yn Undodwr selog a thrwyadl, (bu farw yn 1871). Gallwn hefyd

enwi ereill yn mhlith y bobl gyffredin llawn cymaint eu sel a mwy eu gweithgarwch, efallai, fel aelodau cymdeithas grefyddol; ond heb eu henwi, y mae rhai o honoch yn cofio am danynt yn llawn cystal a minau. Pob parch i'w coffadwriaeth.

Parhaodd gweinidogaeth John James yn eglwysi Sir Aberteifi am ddeuddeg mlynedd (1804—1816). Gadawodd am Morganwg; ond tra fu byw, yr oedd Undodiaid Ceredigion yn anwyl iawn ganddo; mynych ymwelai a hwynt mewn achosion neillduol, ac yn ei ewyllys olaf gorchymynodd gael ei gladdu yn Pantdefaid, ac felly y bu. Nid yw yn debyg fod neb yn awr yn fyw yn cofio'r amser pan oedd John James yn weinidog yma.

Wedi ymadawiad John James yn 1816, a marwolaeth David Jenkin Rees yn y flwyddyn ganlynol, bu John Thomas, Llandyssul, yr hwn oedd eisioes wedi cymeryd gofal Pantdefaid, yn gwasanaethu Capelygroes ac Ystrad mor aml ag y gallai; mewn ystyr, bu yn weinidog iddynt am ddwy flynedd. O'r diwedd penderfynodd y ddwy chwaer gynulleidfa i fod gyda'u gilydd yn un fugeiliaeth, a digon tebyg fod ganddynt fugail mewn golwg, a hwnw oedd John Davies, mab Timothy Davies, Ffosyffin, Cellan. Tebyg fod rhai o'r tylwyth ar gael yn awr.

Bu John Davies yn gweinidogaethu yma ac yn Ystrad hyd ddiwedd 1824, a chlywais ddweyd ei fod yn boblogaidd a llwyddianus iawn—iddo roi bywyd newydd yn y cynulleidfaoedd. Tebyg nad oes neb yma heddyw yn cofio am dano yr amser hwn. Ymadawodd am Gastellnedd ddechreu 1825.

Canlynwyd ef yn y weinidogaeth yn y ddau le yma gan Rees Davies yn 1825, yn fuan ar ol ymadawiad John Davies. Y mae yn y cyfarfod hwn heddyw, dybygaf, amryw sydd yn cofio'n dda am y gweinidog hwn, fel nad achos i mi, ac ni byddai weddus i mi, chwanegu dim. Bu ef farw ddiwedd y flwyddyn 1857. Claddwyd ef yn y fynwent hon. Oherwydd prinder gweinidogion yn fwy na dim arall, gosodwyd Capelygroes dan ofal gweinidog Pantdefaid, sef Thomas Thomas, a bu'r ddwy gynulleidfa yn un weinidogaeth hyd nes yr ymddiswyddodd yn 1894. Ei olynydd yn Capelygroes fu Enoch E. Jenkins, o 1894—1899. Rhoddodd ofal yr eglwys i fyny, ac aeth i Rhydychen er esgyn yn uwch ar risiau gwybodaeth.

Wedi i Enoch Jenkins ymadael bu David Evans mor hynaws a'i chymeryd dan ei nawdd mewn undeb a Chribin. Parhaed yr undeb hwn mewn cariad a phob llwyddiant.

A bwrw

GOLWG GYFFREDINOL

dros y gynulleidfa, yn ol yr hyn a wn yn bersonol, yn nghyd a'r hyn a glywais gan eraill, y rhai a wyddent ei hanes o'r dechreuad, anturiaf ddweyd am dani fel y canlyn, heb ofni fy mod yn cyfeiliorni rhyw lawer ar yr ochr oreu na'r ochr waethaf.

Nid yw hanes y gynulleidfa hon mwy na chynulleidfaoedd eraill o enwadau gwahanol, wedi bod yn hanes llwyddiant a chynydd di-

fwlch er ei chychwyniad. Mae yma dymhorau o drai yn gystal a llanw wedi bod ; adegau pan y llosgai y tân yn isel ar aelwyd Sion, adegau drachefn pan enynai yn fflam o sel ac adfywiad nes y byddai golwg arall arni. Beth bynag ellir ddweyd am Capelygroes fel cynulleidfa yn y gorphenol, trwyddi hi y daeth Undodiaeth i'r gymydogaeth hon gyntaf, a thrwyddi hi yn raddol y nawseiddiwyd awyrgylch dduwinyddol y wlad o amgylch, nes y daeth yr athrawiaeth, nid yn unig yn oddefadwy, ond hefyd yn gymeradwy, a'i phroffeswyr yn barchus fel dynion a chymydogion.

Mae pob pwnc cyfeiliornus yn nghyfundrefnau duwinyddol y gorphenol yn gorfod rhoi ffordd fel mae goleuni gwybodaeth yn ymdaenu, ac ni fydd yn wahanol yn y dyfodol. Mae'r coed, gwair, sofl, yn ddefnyddiau tân, ac yn sicr o gael eu llosgi pan ddaw eu hamser, ond yr aur a'r arian a'r meini gwerthfawr a safant eu tir yn ngwyneb y feirniadaeth lemaf. Pan ddihunodd yspryd rhyddymofyniad yn y parthau hyn gorfu i Galfiniaeth gilio o ffordd Arminiaeth, ac Arminiaeth ar ol hyn gilio o ffordd Ariaeth ac Undodiaeth. Yr wyf yn meddwl erbyn heddyw mai anaml y cyfarfyddir ag hyd yn oed Armin *cyfan* yn un man. Dywedai y diweddar enwog Spurgeon, fod yr enwadau a'u wynebau ar y "*down grade*" i Undodiaeth, ond nis gwn yn mha gyfeiriad y golygai ef fod Undodiaeth yn myned.

Anwyl Gyfeillion, yr wyf yn tynu tua'r terfyn. Rhoddais i chwi, goreu y medrwn, ychydig o hanes yr Achos Undodaidd yn y man hwn er ei sefydliad ddechreu y ganrif sydd wedi myned heibio ; am ei ddyfodol am gan' mlynedd eto nis gallaf i, na neb arall, ond *gobeithio'r* goreu. Y mae llawer o honoch chwi sydd yn y cyfarfod hwn heddyw yn llinach yr hen dadau a'r hen famau (o barchus goffadwriaeth) a fuont yn selog a ffyddlon dros y gwirionedd yn Capelygroes, a dymunwn eich bod yn deilwng o honynt, ac yn gwneuthur eich goreu, chwi a'ch plant, yn eich dydd, fel y byddo dathliad dau can' mlwyddiant yr achos yn fater o orfoledd yn y gymydogaeth.

Goddefwch i mi gyfeirio yn gynil at y ffaith, yr hon nis gallwn ei gwadu, sef fod adegau o ddifaterwch, yn awr ac yn y man, yn ein cynulleidfaoedd, a'n bod yn esgeuluso ein cydgynulliad yn amlach nag y mae *rhaid* ; yr wyf yn cyfaddef fod amgylchiadau weithiau yn ei gyfiawnhau fel peth *eithriadol*, ond nid fel peth *arferol*. Hyfryd yr olygfa, pan y gwelir rhieni a phlant, a gwasanaethddynion, lle byddont, yn y cwmni yn cydfyned i'r addoliad ar y Sul.

Goddefwch i mi eto alw eich sylw at y diffyg sy'n bodoli mewn rhai cartrefleoedd, sef, nad yw'r tad a'r fam ar yr aelwyd gartref, trwy siarad ac ymresymu a'u plant, yn gwneuthur un ymdrech i blanu yn eu meddyliau y syniadau crefyddol y maent hwy eu hunain fel rhieni yn eu coleddu. Esgus rhai dros hyn yw rhyw ffug ryddfrydigrwydd ; dywedant mai nid iawn yw ymyru a meddyliau plant hyd nes y byddont yn ddigon hen i allu barnu drostynt eu hunain. Y canlyniad aml o hyn yw, pan mae'r plant wedi tyfu fyny ac yn myned dros y trothwy i ymgymysgu ag ereill mewn cymdeithas, neu i briodi, fod eu meddyliau yn *blank sheets* neu fel *clean slates* y gall

rhyw *orthodox* selog gymeryd mantais arnynt, a'u hathrawiaethu mewn unrhyw bwnc neu bynciau fyddo ef yn ddewis. Mae enghreifftiau o hyn wedi bod yn rhy aml fel mae gwaethaf y modd.

Y mae un peth y dymunwn eich adgofio o hono cyn gorphen, sef yr Ysgol Sul. Y mae'r sefydliad hwn wedi dyfod yn un o anhebgorion pob cynulleidfa sydd a rhywfaint o fywyd ynddi. Nis gwn yn iawn beth yw'r agwedd sydd arni yma yn bresenol, ond yr wyf yn cofio fod yma ysgol gymharol lewyrchus weithiau flynyddau yn ol,—a dyna'r amser pryd oedd y gynulleidfa hefyd yn fwyaf gweithgar a blodeuog. Mae yn wir fod cymydogaethau yn llawnach o blant ar rai amserau na'u gilydd, ac os yw nifer yr ysgolheigion yn y cofiyfr yn isel ar droion, ni ddylid gwan obeithio dim o du'r gynulleidfa yn gyffredinol, nac o du'r athrawon chwaith, ond cydymdeimlo a chydweithio mewn gobaith fod amser gwell i ddyfod. Yr wyf yn cymeryd cenad i ddweyd y dylai penau teuluoedd gofio eu dyledswydd tuag at yr Ysgol Sul trwy roi eu presenoldeb ynddi gyda'r plant mor aml ag y gallant er mwyn eu cefnogi. Mae yn wir pan mae aelodau y gynulleidfa yn byw yn mhell ac yn wasgaredig, ei bod yn dra anghyfleus iddynt i bresenoli eu hunain yn yr addoliad un pen o'r dydd, ac yn yr ysgol y pen arall, a hyny bob Sul. Oud er mwyn rhoi prawf o'u dyddordeb yn yr achos dylent wneuthur hyny yn achlysurol. Cofiwch mai yr Ysgol Sul yw'r *nursery*, lle mae, fel rheol, aelodau dyfodol yr eglwys yn cael eu dwyn i fyny.

CYFARFODYDD CHWARTEROL Y PASC.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Chwarterol y Pasc yn Nghapelygroes ar y Mercher ac Iau, yr 2il a'r 3ydd o Ebrill. Yr oedd y cyfarfodydd hyn hefyd ar achlysur dathliad canmlwyddiant sefydliad yr achos yn y lle, yr hwn oedd un o'r ddau achos Undodaidd cyntaf a sefydlwyd yn Ngheredigion yn 1802. Saif y capel yn nghanol yr hyn a adnabyddir yn gyffredin fel "Darn Undodaidd," Sir Aberteifi, yr hwn sydd wedi bod i lawer yn gymaint o achos gofid a blinder; ac oherwydd ei safle ganolog, mae y cyfarfodydd chwartetol, pan eu cynhelir yma, fel rheol yn lluosog. Ac ni fu'r diweddaf yn eithriad. Yn wir, yn ol tystiolaeth gyffredinol y presenolion, yr oeddynt y cyrddau mwyaf llwyddianus yn mhob ystyr ydys wedi gael yn y parthau hyn er's amryw flynyddau—o ran lluosogrwydd y cynulliadau, nifer y gweinidogion a'r myfyrwyr oeddynt yn bresenol, rhagoroldeb y pregethau a'r pregethu o'r dechreu i'r diwedd, y canu, yn nghyd a'r yspryd brawdol a Christionogol oedd yn nodweddu'r holl weithrediadau. Yr oedd y cyfarfodydd hyn yn nodedig, hefyd, fel yr achlysur cyntaf i'r Parch. W. Copeland Bowie, Ysgrifenydd y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor, i dalu ym-

weliad â Sir Aberteifi. Yr ydym ni fel eglwysi dan ddyled mawr i'r Gymdeithas hon ar gyfrif y cynorthwy ag mae wedi estyn i ni a'r cydymdeimlad y mae wedi ddangos â ni mewn ffyrdd mor lluosog trwy'r ganrif ddiweddaf, yn neillduol yn nghwrs y chwarter olaf o honi. Fel y dywedodd y llywydd yn y prydnawn, "Mae ein capeli hardd yn gofgolofnau o haelioni ein brodyr y Saeson." Mawr obeithiwn fod yr argraff a wnawd ar Mr. Bowie yn ystod ei ymweliad yn ddymunol, a'i fod wedi ei lwyr-foddloni nad yw ei gydymdeimlad ef a'r Gymdeithas y mae yn ysgrifenydd iddi wedi ei gamosod. Yn y cyfarfodydd, hefyd, cawsom y pleser o weled yn bresenol y Parch. Thomas Thomas, Y.H., diweddar weinidog y gynulleidfa, a gwrando ar yr anerchiad hanesyddol dyddorol a draddododd boreu Iau. Llawenydd oedd i'w luaws gyfeillion ei weled yn edrych mor dda, ac yn siarad mor gryf. Mae'r anerchiad yn y rhifyn hwn yn gyflawn fel y traddodwyd ef, a diau y darllenir ef gyda blâs gan ei edmygwyr nad oeddynt bresenol yn y cyfarfodydd.

Y Gweinidogion.

Yn ystod y cyfarfodydd yr oedd y gweinidogion canlynol yn bresenol : y Parchn. Thomas Thomas, Y.H. ; J. Davies (Alltyplacca), R. C. Jones (Llanbedr), W. James, B.A., Y.H. (Llandyssul), J. H. Davies (Cefncoed), T. A. Thomas (Llandyssul), T. J. Jenkins (Gellionen), Lewis Williams (Rhydygwin), D. Rees, (Rhondda), D. Evans (Cwmbach), y Proffeswr Weatherall, M.A. (Coleg Caerfyddin), H. Robinson (Abercynon), E. E. Jenkins (Rhydychen), yn nghyd a'r myfyrwyr canlynol : J. Evans, B.A., Simon Jones, B.A., Islan Jones, B.A., E. O. Jenkins, D. Davies, J. Park Davies, a D. J. Davies, B.A.

Nos Fercher.

Aethpwyd trwy y rhan ddefosiynol o wasanaeth nos Fercher gan Mr. Simon Jones, B.A., a phregethwyd gan y Parchn. D. Evans, Cwmbach, a D. Rees, Rhondda. Testyn Mr. Evans oedd Rhuf. viii. 14, ac yn nghwrs ei bregeth sylwodd mai yr hyn osodir allan yn y geiriau hyn oedd y gwahaniaeth fodola rhwng Iuddewaeth a Christionogaeth—un yn gosod pwys ar y ddeddf, y llall ar yr yspryd. Tra yr oedd y ddeddf yn dyweyd gwna hyn, gwna arall, yr oedd yr yspryd yn anog, yn cymhell, yn cynorthwyo, yn peri i ddyn hiraethu am gymundeb a'r yspryd anfarwol. Dododd Iesu y ddeddf o'r neilldu am ei bod yn gosod gormod o bwys ar allanolion crefydd ac yn esgeuluso ei hyspryd. Ysprydolrwydd Cristionogaeth sydd yn ei gwneud yn dderbyniol yn mhob gwlad, ac yn addas i foddloni holl ofynion y natur ddynol yn mhob cyflwr o fywyd. A'r modd y mae yn bosibl meddianu'r yspryd hwn yw (1) trwy geisio ddeall drosom ein hunain egwyddorion teyrnas Iesu Grist, (2) trwy gadw'r enaid yn effro, a gwrando ar y llais sydd yn llefaru wrth ddyn trwy'r gydwybod, a (3) thrwy geisio ymgydnabyddu a'r Yspryd Tragywyddol mewn gweddi. Pan y trwythir ein hysprydoedd a'r tueddiadau nefolaidd hyn, ni fydd allanolion crefydd yn bwysig mwyach, oherwydd byddwn yn cael ein harwain gan yspryd Duw, a'r sawl a arweinir gan yspryd Duw sydd blant i Dduw.

Testyn Mr. Rees oedd Preg. i. 2, a Matt. xxv. 35. Yn y dyddiau hyn (meddai), pan mae llais y *pessimist* mor uchel yn ein gwlad, pan mae egwyddorion tragywyddol iawnder a chrefydd yn cael eu hanwybyddu, *physical forces* a'r cledd yn cael eu dyrchafu, angen mwyaf yr oes yw dychwelyd at yspryd gobeithiol (*optimistic*) yr Iesu, a'i gred yn muddugoliaeth daioni a chariad ar drais a chenfigen ; mewn gair, osgoi yspryd pessimistaidd y Pregethwr, a gweddio Duw am gael gafael yn yspryd optimistaidd y Gwaredwr, yr hwn a'n galluoga i gyhoeddi yn ngwyneb y rhwystrau a'r erledigaeth-

au mwyaf "nef a daear a ânt heibio, ond fy ngeiriau i nid ânt heibio ddim."

Y Pwyllgor.

Cyfarfu'r pwyllgor boreu Iau dan lywyddiaeth y Parch.W. James, B.A., Y.H., pryd y bu amryw faterion pwysig dan ystyriaeth ; ffrwyth yr ymdrafodaeth oedd y penderfyniadau canlynol : (1) Fod y Parchn. W. James, B.A. ; R. J. Jones, M.A., a J. Davies i gynrychioli'r Gymdeithas Gymreig ar yr *Advisory Committee* —pwyllgor a wneir i fyny o'r tri uchod a thri o Gymdeithas Seisnig Deheudir Cymru ; (2) fod y Parch. T. J. Jenkins i gynrychioli'r Gymdeithas yn Nghyfarfodydd y Sulgwyn yn Llundain ; (3) fod y swm o £3 i gael ei rhoi at waith y *Postal Mission* ; ysgrifenydd y gangen hon o'r Gymdeithas yw'r Parch. L. Williams, Rhydygwin ; penderfynwyd cyhoeddi llyfryn y Parch. R. A. Armstrong, "Yn ol at Iesu" ; y cyfieithydd yw'r Parchn. J. H. Davies, Cefn, ac y mae yn barod i'r Wasg ; (5) penderfynwyd cefnogi'r ymgais i gynal cyfarfodydd yn Aberystwyth yn ystod yr haf. Cyn y terfyn cafwyd anerchiad byr gan Mr. Bowie.



Capelygroes.

Boreu Iau.

Dechreuwyd oedfa boreu Iau yn dyner ac effeithiol iawn gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca. Y pregethwr apwyntiedig oedd y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, ond er enfawr siomedigaeth i bawb, rhwystrwyd ef i fod yn bresenol gan afiechyd. Yn ystod y cyfarfod rhoddwyd datganiad i gydymdeimlad y gynulleidfa ag

ef, a dymuniad am ei wellhad buan. Ar fyr rybudd llanwyd y bwlch a achoswyd gan absenoldeb Mr. Jones gan y Parch. W. James.

Pregeth Mr. James.

Testyn Mr. James oedd, "Eglwys y Duw byw, colofn a sylfaen y gwirionedd"; "Fel y byddont oll yn un" (1 Tim. 3 : 15; Ioan 17 : 21). Ar ol sylwi ar y gallu sydd gan ddyn i adgynyrchu y gorphenol, a phortreiadu y dyfodol fel ag i dderbyn ysprydoliaeth oddiwrth y ddau i feithrin ei fywyd yn y presenol, dywedodd ein bod ni yma heddyw, mewn modd neillduol, yn ceisio helpu ein bywyd goreu trwy feddwl am y ffydd a'r ymdrech, y cariad a'r hunanaberth, mae gwaith yr eglwys hon wedi olygu i'n tadau a'n mamau yn ystod y can' mlynedd sydd wedi pasio heibio. Dywedodd y diweddar Broffeswr Henry Drummond fod i waith pob eglwys, os bydd hi yn cario allan ei chenadwri fel y dylai, dair o brif adranau, i'r rhai y rhoddai ef yn Saesneg yr enwau canlynol: *Criticism*, *Dogmatism*, ac *Evangelism*. Mae *criticism* neu feirniadaeth yn cael gafael ar y gwirionedd; mae *dogmatism* yn ei gadw ac yn ei amddiffyn, ac *Evangelism* yn rhoddi adenydd iddo i fyned ar wasgar i bob cyfeiriad. Gyda golwg ar berthynas yr egwyddorion mawrion hyn a'r eglwys yn Capelygroes, dywedodd y pregethwr mai beirniadaeth neu ymchwiliad am y gwirionedd, roddodd gychwyniad iddi ar y dechreu. Yr oedd ei bodolaeth yn ddyledus i'r cyffro cyffredinol a gymerodd le mewn duwinyddiaeth ar ddechreu'r ganrif o'r blaen mewn rhai o'r eglwysi Presbyteraidd yn Sir Aberteifi. Cangen o Alltyplacca yn fwyaf neillduol oedd Capelygroes, a thorodd allan yn 1802, pan oedd yr Hybarch Ddafis o Gastellhywel yn weinidog yno. Pleidiwr y ffurf hono o athrawiaeth ar berson Crist a elwid Ariaeth neu Haner-Ariaeth oedd yr Hen Ddafis, ac oddiamgylch y cwestiwn hwn y rhuai stormydd dadleuaeth yn y parthau hyn gan' mlynedd yn ol. Cymerodd y

Tadau yn Capelygroes

gam yn mlaen, mewn canlyniad, ar linell dadblygiad y meddwl crefyddol, ac o dan arweiniad Dr. Charles Lloyd ac eraill, gadawsant Ariaeth am Undodiaeth, gan gydnabod, heb unryw *gompromise*, ddynoliaeth syml Iesu o Nazareth. Darfu iddynt gyrhaedd y tir hwn trwy y rhyddid a hawlient i feirniadu yr hen athrawiaeth wrth ymchwilio am y gwirionedd, ac yn ddiamheu mae eu plant yn glynu wrth yr un hawl, ac yn cadw eu gwynebau o hyd at y goleuni yn ngwyneb dadguddiadau newydd gwybodaeth yr oes maent yn byw ynddi.

Rhaid hefyd wrth yr ail adran yn y bywyd eglwysig—yr hyn mae Drummond yn alw yn *dogmatism*, er nad oedd y pregethwr yn caru y gair. Rhaid gosod pwys ar yr hyn ydym wedi enill o wirionedd Duw, rhaid wrth egwyddorion cedyrn a sefydlog, i'w hamddiffyn hyd at farw, gwneud y goreu o honynt er cynydd ein bywyd moeseol ac ysprydol. Mae hanes yr eglwys hon yn dangos ei bod wedi bod yn ffyddlon yn yr adran hon o'r bywyd eglwysig. Nid yw y plant sydd yma heddyw yn sefyll yn yr un man yn gywir ag y safai eu tadau a'u mamau gan' mlynedd yn ol. 'Does yr un eglwys, pa mor iawnffyddol bynag mae'n proffesu bod, wedi bod yn alluog i wrthsefyll cyfnewidiadau meddyliol y ganrif sydd newydd derfynu. Ond mae banau mawrion y ffydd Undodaidd, a ymddangosent o flaen golygon y tadau gyda dysglaerdeb nefol gweledigaeth newydd, yn parhau i lewyrchu fel penau y mynyddoedd pan y disgyn arnynt belydrau haul y boreu. Ac yr ydym ni oll yn cytuno ar yr egwyddorion mawrion hyn heb *reservo* dim fel mae pobl yn wneud â phum pwnc Calfin a'r namyn deugain erthygl. Mae pob adran o'r gredo Undodaidd yn elfen sylweddol a gweithgar yn mhroffes a bywyd

pob gwir Undodwr. Ac mae'r egwyddorion mawrion hyn yn

Wirioneddau Cadarnhaol

hefyd, yn fwyd ac yn ddiod sydd yn cadw bywyd yr yspryd yn *fresh* ac yn hoyw trwy y blynyddau. Dygir y cyhuddiad yn aml yn erbyn Undodiaid mai eu gwaith yw beirniadu ac nid dysgu, gwadu ac nid cadarnhau, dinystrio ac nid adeiladu. Ond gofynai y pregethwr, onid oedd Undod Duw yn syniad mor gadarnhaol a'r amrywiaeth a'r cymysgedd personau, a'r gwahaniaeth swyddogaethau ag mae'r Drindod yn olygu? Gosoder athrawiaeth Channing o urddas y natur ddynol gyferbyn a'r syniad o lygredigaeth hollol meddwl, calon ac ewyllys dyn—athrawiaeth sydd yn gwadu pob peth a wna dyn yn ddyn ac yn blentyn Duw. Pa un o'r ddwy sydd fwyaf nacaol a dinystriol? Cymerer yr athrawiaeth o Iawn dirprwyol am bechodau credinwyr trwy ddioddefiadau a marwolaeth Iesu. Onid yw'r athrawiaeth iawnffyddol yn gwadu tadoldeb a chariad Duw—egwyddor sylfaenol Cristionogaeth Iesu—yn gwadu pob cymhwysder a phosiblrwydd sydd mewn dyn i adlewyrchu delw ddwyfol ei greadigaeth yn ei fywyd—yn gwadu cymeriad moesol yr iachawdwriaeth trwy ei gwneyd yn drafodaeth fasnachol yn gyfangwbl tucefn i ddyn? Ac felly, wrth ystyried athrawiaethau eraill, hefyd, yn yr un goleu, yr ydym yn dyfod i'r casgliad fod y cyhuddiad o wadu a dinystrio yn hollol ddisail gyda golwg ar yr egwyddorion mawrion sydd yn gwneud i fyny hanfod ffydd.

Yn y trydydd lle, ar ol enill y gwirionedd a'i gael yn fendith a chysur i ni eu hunain y ddyledswydd nesaf yw

Ei Wasgar a'i Ledaenu

fel y byddo o wasanaeth i eraill. "Gwae fydd i mi," meddai Paul, "oni phregethaf yr Efengyl"; a'r anesmwythder dwyfol yna yn nghalon uuig yr Apostol, pan y taflodd ei olygon pryderus ar draws byd heb Efengyl, oedd dirgelwch llwyddiant y mudiad hwnw a wnaeth Gristionogaeth yn grefydd y byd gwareiddiedig. Ac yn olyniaeth apostolaidd gweision Crist, ni wyddai y pregethwr am un corff o bobl a lywodraethid gymaint gan yspryd Paul, ac a lafurient o dan gymaint o anfanteision a'r tadau Undodaidd fuont yn foddion i blanu ac i feithrin yr eglwys hon ac eglwysi eraill yn Sir Aberteifi yn ystod y ganrif ddiweddaf. Yr oedd eu cenhadwri yn gorwedd mor agos at eu calonau, fel yr oedd yn genhadwri feunyddiol iddynt. Yn y pwlpud, ar yr heol, yn y cartref, yn eu gwaith, yn mhob man, yr oedd yr hyn ag oedd iddynt hwy yn air yr Arglwydd yn gorphwys o hyd yn faich o gyfrifoldeb cysegredig ar eu hysgwyddau. Yn hanes Llanbedr gan y Parch. D. Lloyd Isaac, ficer Llangathen, a gafodd y wobr mewn Eisteddfod a gynhaliwyd yno tua'r flwyddyn 1859, mae cyfeiriad at yr eglwys hon, ac mae yr awdwr yn desgrifio Undodiaid Capelygroes yn y cyfnod hwnw fel pobl oedd a'u heresi ddamniol ar eu tafodau byth a hefyd, yn cecru, yn dadleu ac yn ymbiniwna, yn lle bwrw angor yn Iawn mawr y Groes am eu bywyd. Mewn gwirionedd, mae gwawdiaith yr hen offeiriad yn deyrnged o gydnabyddiaeth i dadau a mamau yr eglwys hon am eu ffyddlondeb a'u hymlyniad brwdfrydig wrth yr egwyddorion a gyfansoddent yr elfen bwysicaf yn eu bywyd.

Pan y meddyliai'r pregethwr am genhadon yr Efengyl Undodaidd tua dechreu'r ganrif, ac yn mlaen, gyda'r hen Ddafis Castell-hywel ar ben y rhestr—yr oedd ef hefyd yn yr olyniaeth,—Dafydd Jenkyn Rhys, John James, Gellionen; John Thomas, Llandyssul; Rhys Dafis, Capelygroes; Gwilym Marles, a'r hen batriarch anrhydeddus, y Parch. T. Thomas, Y.H., ydym ni oll yn falch i'w weled yn bresenol heddyw, ac yn awr yn ddolen sydd yn cysylltu y genhedlaeth bresenol â gweinidogion cyntaf y ganrif, nis gallai edrych arnynt

nac ar eu hanes ond gyda theimladau cynhes o

EDMYGEDD A DIOLCHGARWCH ;

ac yr oedd yr edmygedd yn cynyddu wrth feddwl am eu ffyddlondeb yn pregethu gwirioneddau anmhoblogaidd yn ngwyneb cymaint o anfanteision, a chymaint o ragfarn ddall ac anwybodaeth ddybryd. Ag ystyried yr anhawsderau a'r atalfeydd ar y ffordd, nid yw ryfedd nad oedd y llwyddiant ddim wedi ateb i'r llafur a'r hunanaberth a dreuliwyd ar y maes. Ond dyweder a fyner, mae Undodiaeth canolbarth Sir Aberteifi yn gof-golofn ymdrechion celyd a llafurus gariad y tadau, ac mae'n aros yn *broblem* braidd anesponiadwy yn hanes crefydd yn Ngheredigion. Yn lle cael ei hysgubo ymaith gan ddiluw y Diwygiad Mawr Calfinaidd a Methodistaidd, gwasanaethodd i fod yn wrthglawdd effeithiol yn ei erbyn, ac mae wedi bod yn offerynol i nawseiddio a thymheru awyrgylch yr eglwysi eraill trwy yr holl wlad amgylchynol ac i *barotoi y ffordd*, yn nglŷn a symudiadau eraill, at *unig sylfaen* ad-undeb yr holl eglwysi, yr hwn ydyw'r breuddwyd yr edrychwn ni mlaen sydd i gael ei sylweddoli, i fesur, beth bynag, yn yr ugeinfed ganrif.

Dyma'r swn glywn ni heddyw o bob cyfeiriad—swn undeb—*the reunion of the churches*—cydymdeimdeimlad yn hiraethu am gydweithrediad ; darnau gwahanedig o gorff Crist yn dyfod at eu gilydd, gwrthgloddiau credoau, olyniaeth Apostolaidd, sacramentau a defodaeth yn bygwth cael eu tori i lawr, y pwys yn cael ei osod ar egwyddorion hanfodol Cristionogaeth—cariad at Dduw a chariad at ddyn, a gogwyddiad cyffredinol at gyd-uniad holl alluoedd yr eglwysi yn y frwydr fawr yn erbyn y pechod sydd yn y byd. Mae y

MUDIAD HWN O DDUW,

ac mae galluoedd cynydd a dadblygiad—*energies* Duw ei hun— yn gweithio hyd yn nod tucefn i'n hymrysonau a'n gwahaniaethau crefyddol ni. Ymddangosodd stori yn ddiweddar yn YR YMOFYNYDD a adroddodd Henry Ward Beecher unwaith am ei dad a Dr. Channing a'r ddadl fawr grefyddol a fu rhyngddynt yn Boston. Felly ar ryw olwg, hyd yn nod yn awr, pan mae haul Cristionogaeth yn ymddyrchafu hyd at ganol dydd, mae adranau gwrthwynebol eglwysi cred fel llongau rhyfel yn ymrestru ar gyfer y frwydr, ac yna yn *bombardo* eu gilydd ; tra y maent, ar yr un pryd, yn cael eu cludo yn mlaen gan ryw *under-current* sydd yn gweithio'n nerthol odditanynt—afon bywyd Llyfr y Datguddiad, o bosibl, sydd yn dyfod allan o orseddfaingc Duw a'r Oen—yn mlaen ac yn mlaen yn anwrthwynebol at ryw unoliaeth fawr gyffredinol—" fel y byddont oll yn un," un gorlan ac un Bugail, un Duw a Thad oll.

Ar ol Mr. James cafwyd anerchiad dyddorol gan y Parch. Thomas Thomas, Y.H., yn yr hwn yr olrheiniodd hanes yr achos o'r dechreu hyd yn awr. Ceir yr anerchiad yn gyflawn yn y rhifyn hwn.

PWYLLGOR YR YSGOL SUL.

Am ddau cyfarfu'r pwyllgor uchod, pryd y cafwyd anerchiadau byr gan y Parchn. T. J. Jenkins, J. Davies, R. C. Jones, a Thomas Thomas, yr oll o ba rai a anogent athrawon ac aelodau ein Hysgolion Sul i fwy o ffyddlondeb.

Y GYNHADLEDD.

Yn y prydnawn cafwyd math o gynhadledd dan lywyddiaeth y Parch. W. James, Llywydd y Gymdeithas, gan yr hwn y rhoddwyd croesaw gwresog i'r Parch. W. C. Bowie ar ei ymweliad cyntaf a Cheredigion, gan gyfeirio yn arbenig at y dyddordeb a deimlai yn yr eglwysi Cymreig, a'i barodrwydd gwastadol i estyn iddynt bob anogaeth a chydymdeimlad a fedrai. Yn ei anerchiad sylwodd Mr. Bowie ar y gwersi

a awgrymid gan y cyfarfodydd hyn i ddathlu canmlwyddiant yr achos yn y lle ; a dywedodd na wyddai efe am un rhan o'r deyrnas lle ceid nifer mor lluosog o gapeli Undodaidd o fewn cylch mor gyfyng. Cyfeiriodd hefyd at ledaeniad syniadau mwy rhyddfrydig yn yr eglwysi, yr hyn oedd yn galonogol iawn. Gwnaeth gyfeiriadau at y Mesur Addysg newydd, a chondemniodd amryw o'i ddarpariaethau. Meddai Mr. Bowie gymhwysder neillduol i siarad ar y pwnc hwn, gan ei fod wedi bod yn aelod o Fwrdd Ysgol Llundain am flynyddau lawer, ac wedi llanw safleoedd pwysig yn nghwrs y tymor hwn. Siaradwyd ar ei ol gan y Parchn. Proffeswr Weatherall, M.A., J. H. Davies, D. Rees, E. E. Jenkins, John Davies, a Thomas Thomas, Y.H. Pasiwyd y penderfyniad canlynol yn unfrydol : "Fod y cyfarfod hwn o Undodiaid Deheudir Cymru yn condemnio y Mesur Addysg newydd am y rhesymau canlynol : (1) Na fydd y Pwyllgorau Lleol, i'r rhai y bwriedir ymddiried rheolaeth addysg dan y Mesur hwn i gael eu hethol gan y bobl, ac na fyddant yn gyfrifol iddynt am eu gweithrediadau ; (2) Ei fod yn darparu i Ysgolion Gwirfoddol gael eu cynal allan o'r dreth, heb fod gan y trethdalwyr un llais yn eu rheolaeth ; (3) Y gwnai y ddarpariaeth mewn perthynas i adeiladaeth ysgoldai luosogi ysgolion enwadol, yn lle eu lleihau, yr hyn nas gallai lai na bod yn niweidiol i addysg."

Cynygiwyd diolchgarwch i Mr. Bowie am ei ymweliad gan weinidog y lle.

Nos Iau.

Dechreuwyd y cyfarfod nos Iau gan y Parch. H. Robinson, Abercynon, a phregethwyd gan y Parchn. T. J. Jenkins a J. H. Davies. Testyn Mr. Jenkins oedd Matt. xxvii. 42. Sylwodd (1) fod Iesu yn gwaredu "ereill," a'i fod yn hyn yn esiampl i ni i'w efelychu. Gwelodd Iesu ereill yn ymborthi ar seremoniau, defodau a syniadau plentynaidd, a chreodd hyn awydd yn ei galon i'w hachub. Helpodd Iesu ereill i farw i'w hen ffurfiau o feddwl, ac adgyfodi i gylch mwy newydd, mwy byw a mwy rhesymol. Mae eisiau i ninau i wneud yr un peth yn y dyddiau hyn. (2) Achubodd Iesu "ereill" ar draul colli ei fywyd ei hun. Mae gwerth rhodd yn ymddibynu nid ar gyfanswm y cyfraniad ond ar yr hyn fydd yn weddill. Aberthodd Iesu fywyd cyfan yn ngwasanaeth ei oes ; felly yr oedd y rhodd yn fawr. Dioddefaint yw'r tyst goreu o hunanaberth er mwyn ereill ; ac fe amlygir y dioddefaint yn y "gwneud." Arwyddair "bod" yw "dweyd," ond arwyddair "byw" yw "gwneud." Gweithredoedd Iesu oedd y tystion cadarnaf o'i ymdrechion o blaid y da a'r pur. Sylwodd mai nid trwy ei farw ond trwy ei bregeth yr oedd Iesu yn achub. Mae'r ffaith iddo farw yn rhoddi nerth yn y bregeth ; ond y bregeth mewn gair a gweithred oedd yn achub. Glynodd Iesu wrth ei bregeth yn nghanol pob ystorm, ac y mae hyn yn ychwanegu yn ddirfawr at ei gwerth, ac yn enill iddo yntau edmygedd y byd. A'n dyledswydd ni yw pregethu pregeth yr Iesu, a bod yn ffyddlon iddi, gan gofio mai yr hwn a barhao yn ffyddlon hyd y diwedd fydd cadwedig.

Ar ei ol cafwyd pregeth nerthol a gwir amserol gan y Parch. J. H. Davies. Ond drwg genym na allwn roi yma grynodeb o honi gan na anfonwyd un i ni, er gwneud cais am dano.

Ymweliad Mr. Bowie.

Treuliodd Mr. Bowie wythnos yn y Sir, ac yn ystod yr amser hwn ymwelodd a'r oll o'r eglwysi. Ac yn ychwanegol, bu yn bresenol hefyd mewn cyfarfod canmlwyddiant yn Mhantdefaid nos Wener, y 4ydd o Ebrill, ac yn pregethu yn Cwrtnewydd, Cribyn a Llanbedr y Sul canlynol. Yr oedd cynulliadau lluosog yn mhob un o'r tri lle—yn yr olaf bernir fod 500 yn bresenol.

CANMLWYDDIANT PANTDEFAID.

Nos Wener, Ebrill y 4ydd, cynhaliodd Eglwys Pantdefaid gyfarfod neillduol er dathlu ei chan'mlwyddiant. Daeth yn nghyd dorf o wrandawyr o bell ac agos, gweinidogion a myfyrwyr hefyd er cydlawenhau â'r eglwys pan wedi cyrhaedd ei chanmlwydd oed. Yn y modd hwn y buwyd yn dangos parch i goffadwriaeth y tadau, o Dr. Charles Lloyd, yr hwn fu yn arweinydd ac yn gyfarwyddwr iddi ar y dechreu, John James a John Thomas gyda'u sel a'u brwdfrydedd, i lawr hyd at gadeirydd y cyfarfod crybwylledig, yr hwn wasanaethodd yr eglwys yn ffyddlon am saith mlynedd a deugain. Pe b'ai hanes manwl yr achos yn ystod y ganrif yn cael ei ysgrifenu, diamheu y soniai am lanw a thrai, llwyddiant a methiant lawer tro. Ond drwy'r cyfan cadwai'r ffyddloniaid y tân yn nghŷn yn nerth yr ymwybyddiaeth fod eu cenadwri oddi uchod, ac nad oeddent ond cyfryngau yn llaw Duw i gyhoeddi ei wirionedd. Deuparth yspryd y gwroniaid hyn syrthio ar eu plant a phlant eu plant, fel yr elo'r "fechan yn fil, a'r wael yn genedl gref."

Dechreuwyd y cyfarfod nos Wener drwy ddarllen a gweddio gan y Parch. David Evans, Cwmbach, a chymerwyd y gadair gan y Parch. Thomas Thomas, Y.H., Green Park. Cafwyd anerchiad galluog a hwyliog gan y Parch. William James, B.A., Y.H., Brynhyfryd, yn yr hwn y talai warogaeth i ffyddlondeb ac ymlyniad y tadau Undodaidd ar ddechreu'r ganrif, a hyny yn fynych yn ngwyneb rhwystrau, gwawd a digalondid.

Y Parch. W. Copeland Bowie Llundain, a ddywedai, ei fod wedi ymweled bron a holl eglwysi Undodaidd Sir Aberteifi, ac ni wyddai am un ardal yn Lloegr, Ysgotland na'r Iwerddon i'w gymharu i'r "ysmotyn du" hwn fel ei gelwir weithiau, lle mae eglwysi Undodaidd i'w cael mor aml ac mor flodeuog. Llefarai yn uchel am ddefosiwn a dewrder y sylfaenwyr cyntaf ar ddechreu'r ganrif. Ar ddiwedd anerchiad galluog ac hyawdl, anogai y bobl ieuainc i fod yn ffyddlon i egwyddorion a thraddodiadau goreu y tadau.

Canlynwyd y rhai hyn gan y Parchn. David Evans, Cribin; J. Tyssul Davies, B.A., Caerdydd; D. Rees, Rhondda; T. J. Jenkins, Gellionen a John Davies, Allty-placca. Baich eu geiriau ydoedd ffyddlondeb y gorphenol i gydwybod a gwirionedd ac argyhoeddiadau'r galon, ac anogaeth ar fod yr un ffyddlondeb yn cael ei roddi iddynt yn y dyfodol, fel y byddai achos y gwirionedd yn dyfod yn "deg fel y lleuad, yn bur fel yr haul, ac yn ofnadwy fel llu banerog." Ar ol canu emyn terfynodd un o'r cyfarfodydd mwyaf llwyddianus a dyrchafol a a gawsom erioed.

Heblaw y rhai a enwyd yr oedd y myfyrwyr canlynol yn bresenol:—Mri. E. E. Jenkins, Rhydychen; John Evans, B.A., Simon Jones, B.A., ac E. O. Jenkins o Goleg Manchester, yn nghyd a gweinidog y lle.

"Pa beth ydyw rhagrithiwr?" gofynai gweinidog i ferch fechan yn yr ysgol. "Dyn yn cerdded yn gloff, a dim byd y mater arno," oedd yr ateb.

UNDODIAETH YN NGHEREDIGION.

Gan y Parch. W. Copeland Bowie.

Pan yn ymweled a Sir Aberteifi am y tro cyntaf synwyd fi yn fawr i gael allan fod y tri-ar-ddeg o gapelau Undodaidd, enwau y rhai oeddwn gyfarwydd a hwynt, fel Golygydd yr "Essex Hall Year Book," mor agos i'w gilydd, mewn Sir amaethyddol a theneu ei phoblogaeth. Nid wyf yn rhyfeddu at weinidog yr Annibynwyr oedd yn teithio o Ddyffryn Aeron i Llanybyther, pellder o ryw wyth milldir, ac wrth basio Rhydygwin, Cribin, Capelygroes, ac Alltyplacca, un ar ol y llall, gofynai, "Pwy enwad yw'r capel hwn?" ac attebid ef, "Undodiaid!" Yr oedd yn dystiolaeth i'w iawnffyddiaeth bur, iddo wrth gael yr un ateb y pedwerydd gwaith waeddi allan, "Y d——l a'u cotto nhw! *drive on*!" Y mae y rhan o'r wlad lle mae Undodiaeth wedi blodeuo am ganrif, wedi ei ddesgrifio gan feirniaid angharedig fel yr "ysmotyn du" ar "Sir deg Ceredigion." Yn sicr, y mae yn beth hynod fod Undodiaeth wedi byw gyda'r fath nerth yr holl flynyddau hyn yn mhlith bryniau tawel a dyffrynoedd ffrwythlawn y Sir anghysbell hon. Y mae ei phleidwyr yn cael eu gwneud i fyny gan mwyaf o amaethwyr a llafurwyr yn nghyd a'u teuluoedd. Er mwyn cymhariaeth byddai yn rhaid i ni fyned i Transylvania, er fod yn Antrim a Down, yn yr Iwerddon, ychydig gynulleidfaoedd Undodaidd yn dwyn rhyw debygolrwydd i rai Sir Aberteifi.

Ni welais yn unman arwyddion o gyfoeth mawr na thylodi mawr. Yr oedd presenoldeb Ysgol y Bwrdd a'r Ysgol Ganolraddol sefydlwyd yn ddiweddar, yn brawf fod gofal mawr yn cael ei gymeryd o addysg yn Sir Aberteifi. A barnu oddiwrth ymddangosiad, gwisg, ac wrth ymddyddan a'r bobl, yr oeddynt yn abl i gael "dau pen y llinyn i gwrdd," ac i fyw yn weddol gysurus, heb ryw lawer dros ben i brynu moethau. Ymddangosai y gwyr a'r gwragedd yn fwy dysglaer, yn fwy bywiog a deallus na'r bobl gyfarfyddir mewn ardaloedd amaethyddol cyffelyb yn Lloegr: yr oeddynt yn debycach i amaethwyr a llafurwyr Swydd Aberdeen nag i amaethwyr a llafurwyr Swydd Suffolk.

Yr oedd y cynulleidfaoedd mawrion ddaethant yn nghyd i gyfarfodydd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, ac i'r capelau lle y pregethais yn dangos nad oes diffyg difrifoldeb a bywiogrwydd yn mhlith yr Undodiaid. Dygir y gwasanaeth yn mlaen yn Gymraeg ond ar achlysuron anaml, pan mae Sais yn pregethu, ac nid ydyw'r iaith Saesonaeg yn cael ei siarad yn nghartrefi y bobl, er ei bod yn cael ei dysgu yn yr ysgolion dyddiol, ac yn cael ei ddeall bron gan bob un. Yn mhob man teimlai un nad oedd gwaith ffyddlon ac ymroddgar sylfaenwyr cyntaf a chefnogwyr y capelau bychain hyn wedi ei dreulio yn ofer. Nid yn unig y mae athrawiaethau garw a niwlog Calfiniaeth wedi eu cadw allan, ond y mae ffydd grefyddol, gref a chynorthwyol wedi ei phlanu yn meddyliau a chalonau y bobl.

Cynlluniwyd fy ymweliadau i'r gwahanol gapelau gan y Parch. W. James, B.A., Y.H., a da y trefnodd y cyfan droswyf. Addysgwyd Mr. James yn Nghaerfyrddin, ac wedi hyny yn Manchester New College, lle yr oedd yn gydfyfyrwyr ag ef Mr. Harwood, Mr. Manning, a Mr. Walmsley. Llafuriodd gyda derbyniad mawr yn y weinidogaeth hyd 1889; ac er ei fod yn awr yn fasnachwr erys yn un o wroniaid galluocaf a mwyaf difrifol Undodiaeth yn y dywysogaeth. Yn bresenol y mae yn cyfuno ynddo ei hun y swyddau o Lywydd ac Ysgrifenydd Cymdeithas

Undodaidd Deheudir Cymru. Iddo ef yr wyf yn ddyledus fy mod wedi gweled cymaint yn ystod yr amser byr oedd genyf ar fy llaw. Derbyniwyd fi yn mhob man gyda charedigrwydd croesawgar; profodd gweinidogion y gwahanol gapelau eu hunain yn gyfarwyddwyr rhagorol i mi, a gosododd yr Hybarch Thomas Thomas, Y.H. ei ystor o wybodaeth hanesyddol ac hynafiaethol at fy ngwasanaeth yn ystod yr amser yr arosais gydag ef. Fel cynrychiolydd y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor derbyniwyd fi gyda'r croesaw caredicaf; cydnabyddwyd yn wresog y cynorthwy roddwyd gan y Gymdeithas tuag at adeiladu eu capelau a'u hysgoldai. Nid yw'r enw Undodaidd yn faen tramgwydd nac yn graig rhwystr yn Sir Aberteifi; ac nid ydyw yn cael ei ddefnyddio mor bell ag y gallwn ddeall fel yn golygu bychander meddwl na chulni cydymdeimlad.

Y mae tri-ar-ddeg o gapelau Undodaidd yn Sir Aberteifi, ac y mae chwech o weinidogion Undodaidd yn gofalu am danynt, a chyfrif Mr. Evan Oliver Jenkins, yr hwn fydd yn dechreu ei weinidogaeth yn mis Gorphenaf. Y mae y capelau wedi eu had-drefnu, fel y mae pob gweinidog yn gofalu am ddau, gyda'r eithriad o'r Parch. John Davies, yr hwn sydd yn pregethu hefyd yn Sychbant. Cynhelir y gwasanaeth yn y boreu a'r prydnawn bob yn ail. Y mae gan y gweinidogion yn awr rhyw dair milldir i gerdded o un capel i'r llall. Yn flaenorol yr oedd yn angenrheidiol mewn rhai engreifftiau i gerdded chwech neu saith milldir.

Yr oedd chwech o'r cynulleidfaoedd —Alltyplacca, Bwlchyfadfa, Caeronen, Ciliau, Cribin a Llwynrhydowen, ar y dechreu yn iawnffyddol neu Ariaidd, ac mae'r chwech arall yn ogystal a Sychbant wedi bod yn Undodaidd o'r dechreu. Bydd rhai nodiadau ar gapelau Sir Aberteifi yn sicr o fod o ddyddordeb i ddarllenwyr Yr Ymofynydd.

Adeiladwyd capel cyntaf Alltyplacca yn 1740; dyddiad yr un presenol ydyw 1837; cafodd ei adnewyddu yn 1892, ac y mae yn awr yn adeilad cysurus, trefnus a glân, yn ol dull cyffredin Ty-cwrdd yn y wlad, gyda mynwent o'i flaen. Y mae y Parch. John Davies wedi bod yn weinidog yma oddiar 1864, y flwyddyn gadawodd Goleg Caerfyrddin. Rhagflaenwyd ef gan bump o weinidogion—dau yn dwyn yr un enw ag yntau, yn nghyd a Jones, Lloyd ac Evans. Y mae Mr. Davies yn hen filwr profedig o hyd mewn gwasanaeth. Y mae yn adnabyddus iawn, ac iddo barch uchel drwy'r holl ardal. Dywedwyd wrthyf gan un addas i farnu ei fod yn llefaru ei iaith enedigol gyda thlysni a chywirdeb neillduol, yn ogystal a rhwyddineb. Efe ydyw gweinidog Capel-y-bryn, yn nghyd ag Alltyplacca, a phregetha yn Sychbant bob yn ail Sul, ond nid oes yno gapel eto.

Adeiladwyd Capelybryn yn 1882. Y mae yn sefyll ar lechwedd rhagorol uwchben pentref Cwrtnewydd, a chanddo fynwent eang a phrydferth. Y mae yna adeilad henach yn y pentref, lle y cynhelid y gwasanaeth cyn agor y capel presenol, a'r hwn ddefnyddir yn awr i gynal Ysgol Sul a chyfarfodydd eraill. Y Parch. John Davies, yr hwn ddewiswyd yn 1864, oedd y gweinidog rheolaidd cyntaf, ond cynhelid gwasanaeth gan y Parch. Thomas Thomas a'r Parch. W. Marles Thomas o 1860 hyd 1864, a chynhelid gwasanaeth achlysurol mor gynar a'r flwyddyn 1836. Ar foreu'r Sul y bûm yn pregethu yr oedd yno gynulleidfa o ddau cant neu ragor, llawer o honynt wedi teithio pellder mawr. Yr oedd dwy ran o dair o honynt efallai yn fenywod a'r gweddill yn wrywod. Arweiniodd Mr. Davies y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth yn Gymraeg, ac unai'r bobl yn galonog wrth ganu yr emynau. Ar ol y bregeth yr oedd yno wasanaeth cymundeb syml, ac yn wahanol i Undodiaid Saesnaeg, arosai pawb. Aethai y diaconiaid oddiamgylch a'r bara a'r gwin, a chymerent y casgliad gan roddi newid mewn amryw enghreifftiau i aelodau'r gynulleidfa oedd yn gofyn

am hyny—arferiad nad wyf yn gofio i mi ei gweled erioed o'r blaen. Yr oedd y bobl yn wrandawgar a pharchus trwy'r holl wasanaeth.

Dathlodd Capel-y-groes, ger Llanwnen, ac oddeutu tair milldir o Lanbedr, ei chanmlwyddiant yn ystod fy ymweliad. Adeiladwyd y capel cyntaf yn 1802, ac y mae yn ddyledus am ei fodolaeth i Dr. Charles Lloyd, pregethwr nerthol ac edmygydd mawr o Dr. Priestley. Cafodd yr adeilad presenol ei godi yn 1891, yn ystod gweinidogaeth y Parch. Thos. Thomas, yr hwn lafuriodd yno am ddwy flynedd-ar-bymtheg-ar-hugain. Y Parch. David Evans ydyw'r gweinidog oddiar 1899, ac y mae y Cribyn hefyd o dan ei ofal, lle yr ymsefydlodd yn 1880, ar ol gadael Coleg Caerfyrddin. Yn Nghapel-y-groes y cynhaliwyd cyfarfodydd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru. Nos Fercher, Ebrill yr 2il, pregethodd y Parch. David Evans, Cwmbach a'r Parch. David Rees, Pentre, yn Gymraeg, gyda difrifoldeb a nerth. Ni ddeallwn un gair o Gymraeg, ond gallwn weled fod y gynulleidfa fawr yn gwrandaw yn astud yr oll leferid, ac yr oedd y canu yn effeithiol a dyrchafedig. Boreu dydd Iau, ar ol y Pwyllgor, yn absenoldeb y Parch. Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, pregethodd y Parch. W. James, B.A., Y.H., gyda nerth mawr, a dywedwyd wrthyf ei bod yn bregeth alluog a dyddorol iawn ar Eglwys y Duw byw, yn yr hon y talodd deyrnged o barch i sel a ffyddlondeb sylfaenwyr cyntaf Undodiaeth yn SirAberteifi. Traddododd y Parch. Thomas Thomas (patriarch yr eglwysi Undodaidd) anerchiad yn yr hwn yr aeth dros hanes y gynulleidfa yn ystod y can' mlynedd y mae wedi bodoli. Haner dydd cymerwyd seibiant i gael bwyd, a chadwyd boneddigesau y gynulleidfa yn ddiwyd i borthi anghenion torf o bobl newynog, gyferbyn a'r rhai yr oedd digonedd wedi ei barotoi yn yr ysgoldy. Cawsom ragor o areithiau yn Gymraeg yn y prydnawn gyda rhai Saesnaeg gan Mr. Weatherall a fy hunan; yna daeth tê, yn cael ei ganlyn gan wasanaeth hwyrol, pryd y pregethodd y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen, a'r Parch. J. Hathren Davies, Cefncoed, ddwy bregeth y rhai gawsant wrandawiad astud y gynulleidfa fawr. Y mae yn arferiad i wahodd gweinidogion Sir Forganwg i bregethu mewn cyfarfodydd gynhelir yn Sir Aberteifi, ac y mae yr un fraint yn cael ei hestyn i weinidogion Sir Aberteifi pan y cynhelir y cyfarfodydd yn Sir Forganwg. Cymerodd amryw o'r myfyrwyr Undodaidd, y rhai oeddynt gartref ar wyliau y Pasc, ran yn y gwasanaeth defosiynol. Yr oedd y cynulliadau mawrion o bobl yn yr holl gyfarfodydd ac yn Capel-y-groes, yn nghanol gwlad amaethyddol, yn brofiad newydd i mi, a dangosai fod y bobl yn cymeryd dyddordeb byw mewn crefydd; oherwydd nid oedd yno un o'r atdyniadau ysgafnach, y rhai deimlwn ni yn Lloegr sydd yn angenrheidiol er cael cynulleidfa mewn cyfres o gyfarfodydd Undodaidd.

(I'w orphen yn ein nesaf.)

MYFYRWYR UNDODAIDD COLEG CAERFYRDDIN.*

Ni pherthyn i mi i ymwneud a'r ddadl a gymerodd le ar enedigaeth y llyfr gwerthfawr hwn. Mae a fynwyf fi yn hollol a chynwys y tudalenau sydd yn cofnodi ffeithiau bywyd rhyw chwech ugain a phedwar (124) o ddynion, ag mae eu gwaith, gan mwyaf, wedi cael ei wneud yn y gongl hono o'r maes Cristionogol a

* The Unitarian Students at the Presbyterian College, Carmarthen, in the Nineteenth Century." Compiled by an Old Student (R. J. J.) Aberdare: Jenkin Howell, Printer, &c., Victoria Square. 1902.

elwir yn "Undodaidd"; a'r rhai a gawsant eu haddysg, yn gyfangwbl neu yn rhanol, yn Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ychydig wythnosau yn ol gosodais y llyfr yn nwylaw fy nhad, y Parch. D. L. Evans (Rhif 42), yr henaf o'r myfyrwyr sydd yn fyw a enwir yn y llyfr, er nad yr henaf o holl fyfyrwyr y Coleg; a gofynais iddo nodi holl enwau y dynion adnabyddus iddo ef i lawr hyd at 1875, pan y darfu iddo roddi i fyny ei swydd fel athraw yn y Coleg. Ychydig iawn o enwau oedd yn aros heb eu nodi. Yr oedd myfyrwyr, nad oeddent ond enwau i mi, yn bersonau byw iddo ef. Dechreuai ei adgofion gyda'r cyntaf a enwir—David Davis, mab henaf y bardd o Gastellhywel. Cofia hefyd am y diweddaf, ac yr oedd yn bresenol yn ei angladd yn Llanwenog. Yr oedd ganddo ryw adgof neu ryw ystori ddigrif i ddweyd am bron pob un o honynt. Mae hanes bywyd John Jones (Rhif 38), a adawodd y Coleg yn 1834, pan y cafodd ef fyned iad i mewn, yn cael ei grynhoi mewn modd rhagorol, fel mae gwaethaf y modd, yn y llinellau a ddyfynir ar dudalen 38:

"Treulais fy myd yn rhyfedd iawn—
Weithiau yn llwm, ac weithiau'n llawn;
'Rwy'n awr gan angeu wedi 'nghloi,
A'r bws diwedda' wedi ei roi."

Gofyna fy nhad un cwestiwn gyda golwg ar y llinellau hyny yn *Telyn Dewi* (tud. 149), a glywodd ef yn cael ei hadrodd unwaith gan David Davis:

"*My fair I find in mind and mien*
And honor a Diana;
By George, I'd scorn to take his queen,
And losing fair Eliza."

Ai nid Eliza oedd enw gwraig y bardd? Yr oeddwn wedi meddwl felly, ond rhaid i mi ostwng fy mhen i'r enw "Anne" fel ei rhoddir ar dudalenau 1 a 97.

Ni fyddai yn iawn i bigo allan ddanteithion o'r wledd yma, pan y gellir cael yr holl *courses* am bris chwech o *cigars*, ag y byddai yn well bob amser i fod hebddynt. Ni wnaf gasglu yspail ynte er mwyn y brodyr, ond cynghorem hwy i brynu y llyfr, a hyny ar unwaith, neu bydd yn rhy ddiweddar. Gwnaf ychydig nodiadau nid er mwyn cywiro, ond yn hytrach ychwanegu at y gwaith sydd wedi ei wneud gan un o'm tadau mewn ymchwiliadau hanesyddol. Rhif 6—"Syr Josiah Rees" bu farw Tachwedd 4, 1898. Rhif 19—yn lle "1806" darllener "1808." Rhif 26—meddylia fy nhad mai enw cyflawn "Thomas J——— Griffiths" oedd "Thomas Jeremy Griffiths." Rhif 28—yn lle "D. Peter Davies (12)" darllener "(13)." Rhif 34—yn lle "Allen Raine . . yw Jane" darllener "Ada." 'Rwyf yn alluog i gywiro y gwall hwn oddiwrth lawnodiad llythyr a dderbyniais oddiwrth awdures *A Welsh Singer*, *A Welsh Witch*, &c. Gyda llaw, dywed Allen Raine am ei hen dadcu, David Davis, Castellhywel, fel hyn: "'Rwyf yn parhau i feithrin adgofion serchus a mynwesol am dano trwy y cyfeiriadau aml a wnaethai fy anwyl dad tuag ato, a'r ystoriau lluosog ac amrywiol a adroddai am yr hen fywyd yn Nghastellhywel." Rhif 40—yn lle "1830" darllener "1831." Rhif 42—bu Esau Evans, tad D. L. Evans farw yn Ffynon Inglis, Llanybyther, Awst 12, 1868, yn 82 oed; claddwyd ef yn Alltyplacca. Rhif 51—onid y darlleniad iawn fyddai "*yr ail* ferch" ac "1853" yn lle "1854"? Rhif 52—yn lle "ieuangaf" darllener brawd "henaf" Roger Acton, a anwyd Medi 29, 1826; hefyd ar ol "chwaer" gosoder "Mary"; ac yn lle "yr oedd Dr. Morell yn dad," &c., darllener "ewythr." Rhif 76—John Evans adeiladodd yr ysgoldy yn Trebanos lle y cynhelid yr Ysgol Sul a'r gwasanaeth hwyrol am lawer o flynyddoedd, cyn adeiladu y capel newydd a agorwyd Tachwedd 7, 1894. Rhif 88—tybiaf mai enw tad Walter Jenkins oedd "David" nid "Henry"

Jenkins, gwneuthurwr menyg, Llanboidy. Rhif 112—priododdd Chwefror 6, 1900. Rhif 114—darllener "26" oed yn lle "24." Rhif 115—priododdd Medi 13, 1898. Rhif 120—priododdd Ebrill 10, 1900.

Gwneir cyfeiriadau aml at Dr. Charles Lloyd yn y llyfr. Efe sylfaenodd Capelygroes rhyw ganrif yn ol, ac yn mhen ychydig wythnosau bydd y gynulleidfa yn dathlu ei chanmlwyddiant. Nid ymddengys hyn yn rhyw yspaid hir o amser, pan y cofir fod fy nhad yn ei ddesgrifio yn 1899 oddiar adgofion personol, fel dyn "o alluoedd rhyfeddol, tymher ddrwg, cenfigenus i'r eithaf, bob amser mewn dwfr poeth, wedi ei ferwi ganddo ef ei hun."

O'r dechreu i'r diwedd nid oes un tudalen heb ei dyddordeb yn y llyfr. Teimlwn yn fwy nag erioed, oddiwrth nifer y dynion a anwyd yn Nghheredigion, y fath ran mae yr hen Sir wedi chwareu i hyrwyddo achos Cristionogaeth rydd a dilyfethair. Mae Mr. Jones wedi rhoddi cymhorth i ni gyda'r llyfr hyn, a rhaid bod yn foddlawn arno hyd "rhyw amser yn y dyfodol"—i ddyfynu ei eiriau ei hun, pan y gobeithiwn y gwna yr awdwr profiadol ni yn ddyledwr iddo eto.

Gyda chyfeiriad at y geiriau a ysgrifenwyd gan y Parch. Timothy Davies, Evesham, yn 1827 (tud. 26), mae y gweinidog henaf ar lechres yr eglwysi yn awgrymu y nodyn canlynol i'w osod ar ymyl y ddalen—"Cynghor da i bob gweinidog Undodaidd, yn neillduol ar yr amser presenol." Na fydded i gysgod R.J.J. byth fyned yn llai.

G.E.E.

MARWGOFION.

CHWEFROR 19eg, bu farw John Walter Jones, mab henaf John Jones, Hendryd, yn 29 oed. Bu ein cyfaill ieuanc yn wael am gryn amser; ac er fod arwyddion dadfeiliad yn amlwg, ac nad oedd y gobaith am adferiad ond gwan, eto daliodd i fyned o amgylch hyd y diwedd bron, a bu ei symudiad pan ddaeth i raddau yn ddisymwth. Yr oedd yn ddyn ieuanc tawel a pharchus iawn gan bawb a'i hadwaenent. Cydymdeimlir yn fawr a'i dad a'i chwiorydd, a'i frawd yn eu trallod. Na fydded iddynt alaru fel rhai heb obaith. Hebryngwyd ei weddillion i gladdfa'r teulu yn Nghaeronen y Sadwrn canlynol gan dyrfa anarferol o luosog; a thraddodwyd y bregeth yn Capel-y-groes y Sul canlynol gan y gweinidog.

CHWEFROR 19eg, yn 85 mlwydd oed, bu farw John Davies, Mount Pleasant, ger Cribyn. Claddwyd ei weddillion yn Capelygroes y Llun canlynol. Gweinyddwyd yn y ty gan y Parch. T. P. Lewis, Silian, ac yn y capel gan y gweinidog.

CWEFROR 21ain, ar ol cystudd hir a chaled, yn 74 mlwydd oed, David Jenkins, Penlone, Maesnewydd, yn mhlwyf Llanwnen. Claddwyd yn nghladdfa'r teulu yn mynwent Aberduar, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca.

CHWEFROR 24ain, bu farw Henry Jenkins, Glyn Rosser, Cwmgwrach, yn 57 oed. Yr oedd yr ymadawedig yn fab i Rosser Jenkins, Fforchgoch, un o ffyddloniaid yr achos Undodaidd yn Blaengwrach, a bu y mab yn ffyddlon tra bu gwasanaeth yn cael ei gadw yn y lle. Yr oedd yn dder-

byniwr cyson o'r YMOFYNYDD ; yn ddyn diwyd, tawel, geirwir a gonest, prydferth ei fywyd a pharchus gan bawb a'i adweinai. Dydd Iau canlynol daeth lluaws o gyfeillion o bell ac agos i dalu y gymwynas olaf i'w weddillion marwol. Yn y ty gwasanaethwyd gan y Parch. J.W. Morris, Addoldy, Glynnedd, ac yn yr Eglwys gan y Parch. J. L. Thomas, Ficer Aberpergwm a Blaengwrach. Gadawodd weddw a phlant ar ei ol, y rhai a deimlant eu colled yn fawr. Nerth a gaffont i ymostwng yn dawel i drefn ddoeth a daionus eu Tad nefol, gan hyderu yn y gobaith y cawn gyfarfod eto ar fryniau gwlad well.

Yn lle galaru'n oer ein cwyn,
Wrth roi'n y graian gyfaill mwyn,
Gwell yw ymddiried o un fryd
Yn Nuw, doeth Lywydd mawr y byd.

MAWRTH 1af, yn 6 wythnos oed, William, baban Mr. John Davies a Mrs. Davies, Ffosesgob. Claddwyd gweddillion yr un bychan yn mynwent Carmel, y Parch. T. P. Phillips, W. V. Edwards ac Arthur Thomas yn gwasanaethu.

MAWRTH 2il, yn 19 Stuart Street, Aberdar, bu farw Emma Elizabeth, anwyl wraig Mr. —Oliver, yn 46 oed, gan adael ei phriod ac wyth o blant i alaru eu colled anadferadwy. Dydd Iau, gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. D. J. Williams, Merthyr, a R.J.J., ac ar lan y bedd yn y *Cemetery* gan y Parch. R. Williams (Twrfab), ei chymydog a R.J.J.

"Hold her, O Father, in Thine arms,
And let her henceforth be
A messenger of love between
Our human hearts and Thee."

MAWRTH 6ed, yn ddisymwth, Jane Jones (Shani) Felinfach, Llanfihangel-Ystrad, yn 59 mlwydd oed. Claddwyd y Llun canlynol yn mynwent Eglwys y Plwyf. Gwasanaethyn y tŷ gan y Parch. L. Williams, yn cael ei gynorthwyo gan John Enoch, Neuaddlwyd, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan Ficer Trefilan.

MAWRTH 31ain, Evan Morgan, Werndryw Lodge, Llanbedr, yn 55 mlwydd oed. Crydd oedd o ran ei alwedigaeth ac un medrus iawn yn ei waith. Yr oedd hefyd yn ddarllenwr mawr ac yn medru'r ddwy iaith yn dda. Mab ydoedd i Thos. Morgan, Felinfach, Llanfihangel-Ystrad, ac yr oedd fel ei dad o ran ei olygiadau duwinyddol yn Undodwr. Gadawodd i alaru ar ei ol weddw, nifer fawr o blant, a thad oedranus, heblaw perthynasau ereill. Claddwyd ei weddillion yn mynwent y Plwyf, a gwasanaethwyd yn y ty ar ddydd ei angladd gan R. C. Jones.

EBRILL 7fed, yn 32 mlwydd oed, Gwen Thomas, Gellinudd, ger Pontardawe. Claddwyd y Sadwrn dilynol wrth Gellionen, dan weinyddiaeth y Parch. T. J. Jenkins. Prudd-der i galon yw cofnodi marwolaeth y chwaer anwyl Gwen Thomas, ac fe welwyd darlun o'r prudd-der hwn yn wyneb y dyrfa anferth ar lan y bedd, ddydd y cynhebrwng. Gadawodd yr ymadawedig lu o alarwŷr ar ol yn eu duon wisgoedd, yn enwedig ei chwaer, sydd mor unig erbyn hyn, ar aelwyd y cartref fu yn gysur a dedwyddwch mawr cyn yma. Yr oeddent megis Ruth a Naomi gynt, pa le bynag y buasai un yr oedd y llall yno hefyd. Dyma aelod arall o'r praidd wedi myned i ffordd yr holl ddaear. Carasem helaethu, onibai prinder gofod. Caffed y galarwyr, yn neillduol Mary, nerth i ymddal odditan y croeswynt nerthol. Heddwch i lwch cares ein cynulleidfa.

EBRILL 7fed, yn 22 oed, Daniel Williams, mab Daniel a Margaret Williams, Drovers Road, Llanbedr. Crydd oedd wrth ei alwedigaeth, o weithfa Davies Brothers o'r lle hwn. Dioddefodd ei gystudd maith o flwyddyn yn amyneddgar. Dydd Iau canlynol daeth tyrfa luosog i dalu y gymwynas olaf iddo. Aed trwy y rhan gyntaf o'r gwasanaeth yn y ty gan ei barchus Is-Beriglor, Mr. Evans. Daeth aelodau Cymdeithas y Coedwigwyr yn nghyd i'w gludo tua Mynwent y Llan, o'r hon yr oedd yn aelod. Gorphenwyd y gwasanaeth ar lan y bedd gan y Parch. R. Williams, yr Athraw Cymraeg yn Ngholeg Dewi Sant.– T.D.E.

EBRILL 8fed, yn 47 oed, John Jones, Pwllgrafel, ger Pantdefaid. Dyn llafurus, gweithgar a didderbynwyneb oedd John, ac iddo air da gan bawb yn yr ardal, lle y gwelir ei eisiau; ond gwelir ei eisiau yn fwy gan ei weddw a'i chwech plentyn adawodd ar ol. Tad yr amddifaid a Barnwr y weddw fyddo a'i nodded drostynt. Y dydd Gwener canlynol gosodwyd ei weddillion i orwedd yn Pantdefaid, a gwasanaethodd y Parch. Arthur Thomas. yn cael ei gynorthwyo gan Mr. E. O. Jenkins.

EBRILL 11, yn 6 mis oed, Gwladys, geneth fechan Lewis ac Ellen Bowen, Trebanos. Claddwyd y 14eg cyfisol, wrth Gellionen, a'r Parch. T. J. J. yn gwasanaethu. Eiddunwn gyfnerth i'r tad a'r fam, a'r teulu oll, i gofio yr ymadrodd prydferth hwnw, "Gadewch i blant bychain," &c.

EBRILL 12, wedi cystudd maith, a ddioddefwyd yn amyneddgar, Dinah, gwraig Daniel Jones, Drefach, Llanwnen, yn 77 mlwydd oed. Gadawodd ei phriod oedranus, a phedwar o blant i alaru'n ddwys ar ol un a lanwodd y gwahanol gyssylltiadau hyn mor ffyddlon drwy ei bywyd. Boed iddynt nerth i blygu i'r drefn Ddwyfol, a pharotoi ar gyfer ail-gyfarfyddiad mewn gwlad well. Yr oedd i'r ymadawedig air da gan bawb a'i hadwaenai, ac fel y credwn, gan y gwirionedd ei hun. Claddwyd yn Nghladdfa'r teulu yn mynwent Eglwys Llanwnen, a gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y ty gan y Parch. J. Davies, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Evans.

EBRILL 12, ar ol hir gystudd, Anne, priod David Jones, 8, East Avenue, Aberdar, yn 54 oed, gan adael priod a theulu lluosog yn eu galar.

Yr oedd yn aelod yn yr Hen Dy Cwrdd, lle y gwelir ei lle yn wag mwy. Menyw ddarbodus a diniwed iawn oedd Mrs. Jones, ac yr oedd y cynhebrwng lluosog yn arwydd o'r parch oedd iddi yn ei chymydogaeth. Gwasanaethwyd ddydd yr angladd gan y Parch. David Evans, Cwmbach, a R. J. J.

EBRILL 13, yn 73 mlwydd oed, Gwen, gweddw y diweddar Morgan Jones, Rhydygwin, Llanfihangel-Ystrad. Trigianai yr ymadawedig yn awr gyda'i brawd, Stephen Lewis, Ffynonoer, yr hwn sydd wedi ei adael yn unig, ac mewn mawr alar. Yr Arglwydd a fyddo yn ddyddanwch iddo. Claddwyd yr lau canlynol yn mynwent Eglwys y Plwyf, pryd y gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, ac yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan Mr. Owen, yr offeiriad.

EBRILL 15fed, ar ol cystudd byr, yn 79 oed, John Silvanus Jones, King's Arms, Llandyssul. Yr oedd yr ymadawedig yn adnabyddus iawn, a chanddo gylch helaeth o gyfeillion, a bydd ei le yn wag yn Llandyssul, ac yn Nghapel y Graig lle yr oedd yn ffyddlon. Gadawodd dri o blant wedi eu dwyn i fynu ac mewn amgylchiadau da, a pherthynasau eraill i alaru ar ei ol. Y dydd Gwener canlynol claddwydd ei weddillion yn Mynwent y Plwyf, y Parchn. Arthur Thomas, T. P. Phillips, y Ficer a'r Curad yn gwasanaethu.

"Holl ffyrdd llwyddiant a gogoniant
A ddibenant yn y bedd."

Dafis Castellhywel.

NODION Y MIS.

Y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.—Dymunaf alw sylw eto at y casgliad blynyddol at y Gymdeithas sydd yn awr yn ddyledus. Carwn gael yr holl gasgliadau a thanysgrifiadau i law o hyn i ddiwedd Mai, fel y byddo'r Trysorydd mewn sefyllfa i wneud y *Balance Sheet* yn barod ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol. Dengys y fantolen am y flwyddyn ddiweddaf restr y casgliadau a'r tanysgrifiadau yn ddigon anfoddhaol, yn neillduol yr olaf, ac yn wyneb hyny erfyniwn am sylw caredig darllenwyr Yr Ymofynydd at angenion y Gymdeithas. Mae amodau aelodaeth yn cael eu gosod allan yn y rheol ganlynol—"Bydd gwaith y Gymdeithas yn cael ei ddwyn yn mlaen gan bwyllgor yn cynhwys swyddogion y Gymdeithas, gweinidog, ac un cynrychiolydd lleygol (gwryw neu fenyw) o bob eglwys sydd wedi gwneud casgliad am y flwyddyn, yn gystal a chyfranwyr o 2/6 y flwyddyn ac uchod at Drysorfa y Gymdeithas." Gwnelai cant o aelodau newydd yn cyfranu 2/6 yr un help mawr ar yr adeg yma, pan y mae y Gymdeithas wedi cychwyn *Postal Mission* i gludo ein llenyddiaeth Gymraeg ar hyd a lled y Dywysogaeth. Anfoner at y Trysorydd—Mr. John Evans, Solicitor, Llandyssul, S. Wales. Cydnabyddir yn ddiolchgar y casgliadau a'r Tanysgrifiadau canlynol—Allty-placca 18/3 ; Sychbant 5/3 ; haner y casgliadau yn Nghyfarfod Chwarterol Capelygroes £3 18s. ; Caeronen 14/9 ; Cribyn £1 8s. 2c. ; Miss Emily Sharpe £2 2s. ; Simon Jones, B.A. 2/6 ; Parch. R. C. Jones 5/- ; Parch. John Davies 5/- ; Mrs. Davies, Trebane, Cellan 5/- ; Miss Davies, Wern cottage 5/- ; Miss Jones, eto 5/-.

W. J.

Aberystwyth.—Bydd yn ddyddorol i ddarllenwyr yr Ymofynydd glywed fod mudiad wedi cymeryd lle yn ddiweddar yn mhlith rhai o fyfyrwyr Coleg y Brifysgol i gael gwasanaeth Undodaidd yn y dref ar nos Sul. Cymerodd y cyntaf le Ebrill 21ain, pan yr oedd y nifer ddaeth yn nghyd yn 13. Mae cyfaill yn y dref wedi bod mor garedig a rhoddi benthyg ystafell, a chyfaill arall gadeiriau ; ac mae y myfyrwyr, yn mhith y rhai y mae Mr. D. J. Davies, B.A., Cwrtnewydd a Mr. J. Park Davies, Llandyssul, yn ymddibynu ar eu hadnoddau eu hunain gan mwyaf fel pregethwyr. Deallir eu bod wedi cymeryd y mater i fyny gyda llawer iawn o frwdfrydedd. Mae trefniadau yn barod wedi eu gwneyd i gael gwasanaeth hyd ddiwedd y *Term*. Gobeithiwn fod yma hedyn yn cael ei hau a ddug ffrwyth da yn y dyfodol.

Llanbedr.—Sadwrn, Ebrill 5ed, pregethodd y Parch. W. Copeland Bowie, Ysgrifenydd y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor, yn y *Town Hall*, Llanbedr, i gynulleidfa luosog—y lle'n orlawn. Cymerodd yn destyn y geiriau a welir yn Marc i. 17, "Deuwch ar fy ol i," ac eglurodd beth oedd myned ar ol Crist, a bod yn ddysgybl i Grist yn olygu yn ol y syniad Undodaidd.

Adran yr Ysgol Sul.—Oherwydd rhwystrau anorfod methais a a darparu *result* yr arholiad yn brydlon er cael ymddangos yn yr Ymofynydd y tro hwn. Gwn fod y plant yn disgwyl yn bryderus am wybodaeth parthed i'w llwyddiant. Yr wyf yn teimlo yn wir ofidus oherwydd fy anallu i gyfarfod a'u disgwyliadau. Yr ydych oll wedi gwneyd yn rhagorol. Daliwch ati flodeu hawddgar ein heglwysi.

Yr oedd llythyrau yr arholwyr, ag eithrio un, yn galonogol iawn ; ac yr oeddent fel balm i galon llawn o bryder. Yr oeddent yn unfryd eu barn gyda golwg ar y plant. "Mae'r plant wedi gwneud yn gampus" meddent.

Diolch am blant yn gweithio. Dyma'r plant sy'n llwyddo. Nid yw safonau III a IV wedi gwneyd cystal. Hyderaf y ceir gwelliant y tro nesaf. Cewch adroddiadau llawn yn YMOFYNYDD Mehefin, felly byddwch amyneddgar, a pheidiwch er dim a llaesu eich dwylaw gyda'r Ysgol Sul.

Carwn pe bai'r holl Ysgolion yn gwneyd defnydd o'r Gwersi diweddaf hyd ymddangosiad y rhai nesaf. Nid oes un Ysgol wedi dysgu'r oll sy'n gynwysedig yn y Gwersi diweddaf, felly gwnewch ymdrech eto i'w meistroli yn yr Ysgolion Sabbothol er eich lles personol eich hunain.

Derbyniwyd y casgliadau canlynol, Wick, 2s. 6d. ; Clydach Vale, 2s. 9d. ; Diolch yn fawr am danynt. Pa le mae'r Ysgolion ereill a'u cyfraniadau? Dewch heb oedi da chwi. Nid oes un Ysgol yn rhy dlawd i gyfranu ychydig. Efallai y bydd ambell un ar ol, oherwydd rhyw yspryd nad yw gydweddol ag yspryd Cristionogaeth. Gochelwch rhag cael eich cyfrif gyda'r esgyrn sychion. Yn debyg gwneir sylw arbenig o'r Ysgol Sul yn nghyfarfod blynyddol yr enwad a gynhelir dechreu Gorphenaf nesaf yn Gellionen, a gobeithio y gellir gwneyd rhywbeth er dihuno ein holl eglwysi i sylweddoli eu dyledswyddau tuag at yr Ysgol Sul.

T. J. JENKINS (*Ysg.*)

PENTRE. — Cynhaliwyd Cyfarfodydd Blynyddol y gynulleidfa uchod Sul, Ebrill y 13eg, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, y boreu, y prydnawn a'r hwyr. Arweiniwyd yn y rhan ddefosiynol o wasanaeth yr hwyr gan y lleygwr gweithgar, Thomas Edwards o Ferndale. Yn yr un gwasanaeth pregethwyd yn Saesneg gan weinidog y lle. Da oedd genym weled cynifer o Undodiaid gwasgaredig Cwm Rhondda, a'r cymoedd cyfagos wedi dod yn nghyd i'r uchel-wyl. Yr oedd y tywydd yn ogoneddus, y gwasanaethau yn llawn o ysprydoliaeth, a chynulleidfaoedd y prydnawn a'r hwyr yn llanw y capel.

RHYDYGWIN.—Dydd Gwener y Groglith anrhegwyd deiliaid yr Ysgol Sul a gwledd o dê a bara brith gan Mrs. Lewis Williams. Yr ydym fel ysgol a chynulleidfa yn llawenhau yn ei dyfodiad i'n plith ac yn dymuno iddi hi a'i phriod flynyddau lawer yn yr achos goreu. Rhanwyd meŵsion i'r plant gan y gweinidog, a chafwyd Cyfarfod Adloniadol yn yr hwyr. Talwyd y diolchgarwch arferol i'r gweinidog a'i briod am eu caredigrwydd.

YR YMOFYNYDD.—Bydd yn llawen gan gefnogwyr *Yr Ymofynydd* glywed fod ei gylchrediad yn ymeangu yn raddol o hyd. Y mis hwn yr ydym yn gorfod argraffu 1200. A oes rhywrai o'n darllenwyr fedr daro ar gynllun sut i chwyddo y nifer hwn i 1500 y mis? Bydd y Golygwyr yn ddiolchgar am awgrymiadau.

LLANDYSSUL.—Sul y Pasc ymwelodd Ysgol Sul Pantdefaid â'r Graig, fel arfer. Aeth y ddwy ysgol drwy eu gwaith yn rhagorol. Ar y diwedd buwyd yn cydyfed te ddarparwyd gan foneddigesau yr olaf.

PANTDEFAID.—Llun y Pasc cynhaliwyd ein Heisteddfod Flynyddol. Bu yn llwyddianus iawn yn mhob ystyr, ac y mae hyn i'w briodoli i ffyddlondeb y swyddogion.

Y GRAIG A GELLIONEN.—Pasiodd adeg yr arholiad eleni eto, a mawr obeithiwn fod y cyfan wedi bod er gwell i bob ymgeisydd yn gyffredinol.

TREBANOS.—Llawen genym ddyweyd i Seindorf Arian Trebanos gipio y ddau *First Prize* yn nghystadleuaeth Ystalyfera, Ebrill 12fed. Hefyd, dyfarnwyd tri o dlysau i'r Seindorf—un i'r arweinydd, Mr. T. Hanney, un i Mr. Henry H. Morgan, a'r llall i Mr. John H. Morgan. Tipyn o ffyddlondeb ychwanegol eto, a chydweithrediad, a wna sicrwydd o lwyddiant yn y dyfodol.

P.

DR. EDWARD EVERETT HALE.—*Grand Old Man* Undodiaeth yn America yw Dr. Hale, ac mae'n rhaid cyfaddef nad oes genym ar y pryd hwn, tu yma i'r môr, yr un gweinidog Undodaidd sydd yn llanw y lle pwysig a dylanwadol ag mae Dr. Hale yn lanw gyda phob dosparth ac enwad yn yr Unol Dalaethau. Mae wedi

enill enwogrwydd mawr ar dri chyfrif —fel gweinidog, fel awdwr, ac fel diwygiwr cymdeithasol. Bu yn weinidog am ddeg mlynedd cyn dyfod i Boston yn 1856, pan y cymerodd ofal y *South Congregational Church*, ac o dan ei weinidogaeth daeth i fod yn un o'r eglwysi mwyaf lluosog, gweithgar a dyngarol yn ninas Boston. Ychydig, yn America, beth bynag, sydd heb ddarllen ei *Man without a County*, *In his name*, a gweithiau eraill ; ac mae y Clybiau a ddechreuodd ef yn ymledu yn gyflym trwy'r byd, gyda'r genadwri ganlynol yn ysprydoliaeth iddynt—"Edrychwch i fyny ac nid i lawr, allan ac nid i fewn, yn mlaen ac nid yn ol, a rhowch law o help." Mae y gair diweddaf wedi rhoddi eu henw iddynt—"*Lend a hand*" *Clubs*. Ar y drydedd o Ebrill cyrhaeddodd ei bedwar ugain mlwydd oed, a dathlwyd y dydd yn Boston ac yn New York mewn modd teilwng o un sydd wedi cysegru ei athrylith a'i weithgarwch i amcanion mawrion teyrnas Dduw. Mae'n hyfrydwch ac yn adfywiad i wybod fod ymdrechion y fath ddyn yn cael eu gwerthfawrogi. Ar y bwrdd gartref yn ei ddisgwyl o gyfarfod y dathliad yr oedd y swm o £5600 wedi eu cyfranu gan ei edmygwyr.

Yr "Encyclopaedia Biblica."—Mae y drydedd ran—o L i P—o'r Geiriadur gwerthfawr hwn newydd ddyfod allan, ac mae'n eithaf tebyg y crea y rhan hon eto gymaint o gyffro trwy'r wlad ag a wnaeth y rhanau blaenorol. Yr erthygl fwyaf dyddorol i ni, feallai, yw yr un ar le genedigaeth Iesu—y *Nativity Narratives*—gan y Proffeswr Usener o Berlin ; a'r un fwyaf beiddgar a chwyldroadol yw y rhan hono o'r erthygl ar Paul gan y Proffeswr Van Manen o Leyden. Mae y Proffeswr *Usener* yn gwneud *short work* o'r ystraeon ar ddechreu Matthew a Luc am y cenhedliad gwyrthiol, &c., ac yn hyn nid yw ond cadarnhau yr hyn mae dysgedigion Undodaidd wedi bod yn dysgu am fwy na chan' mlynedd. Bydd yn newydd i rai o'n darllenwyr. feallai, i glywed fod Dr. John Williams, gwr o Lanbedr, ac hen fyfyriwr o Goleg Caerfyrddin, wedi cyhoeddi llyfr yn 1771, ac ailargraffiad wedi ei helaethu yn 1790, i wrthbrofi dilysrwydd y ddwy benod flaenaf yn Efengyl Matthew. Un o ganlyniadau mwyaf sicr y ddysgeidiaeth ddiweddar yw nad yw iawnffyddwyr yn awr ddim yn gosod athrawiaeth yr ymgnawdoliad i orphwys ar yr enedigaeth wyrthiol yn Bethlehem. Mae hono wedi myn'd gyda'r llif i beidio dychwelyd mwy, ac fe geir yn yr erthygl hon ddigon o resymau i ddangos paham. Bydd yn newydd da i lawer o'n pobl ieuainc i wybod fod y cyhoeddwyr—A. a C. Black—wedi penderfynu dwyn y gwaith allan o'r dechreu yn ranau pum' swllt yr un.

COLOFN Y GOLYGWYR.

Rhifyn Mehefin.—Gorphenir yr erthygl ar "Dr. Rowland Williams" gan y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., yn nghyd ag "Hanes Capel Pantdefaid" gan y Parch. Thomas Thomas, Y.H. Ymddengys erthygl gan y Parch. W. Tudor Jones, Abertawe ; "Yn Nechreu'r Haf," gan "X" ; parhad y gyfres ar y Beibl, gan "Disgybl," yn gystal ag amryw eraill.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gomerian Press, Llandyssul.